Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 43/2024

DYDDIAD CYHOEDDI: 20/06/2024

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Astudiaeth Galw'r Farchnad Croeso Cymru - DU (2024)

ISBN Digidol: **978-1-83625-229-0**

© Hawlfraint y Goron

This document is also available in English.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Astudiaeth Galw'r Farchnad Croeso Cymru - DU (2024)

Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 43/2024

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adroddiadau-galwr-farchnad-ym-maes-twristiaeth-mawrth-2024

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru,
Economi, Ynni a'r Iaith Gymraeg
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

# Cynnwys


01 Cefndir a Methodoleg

02 Canfyddiadau Allweddol

03 Proffil y farchnad wyliau yn y DU

04 Sbardunau Gwyliau - DU

05 Ymweliadau â Chymru yn 2023

06 Bwriad i fynd ar daith i Gymru yn 2024

07 Effaith marchnata Croeso Cymru

08 Effaith "Welcome to Wrexham"

09 Rhesymau dros beidio ag ymweld â Chymru

10 Cymhelliad a Chanfyddiadau




# CEFNDIR
# A METHODOLEG



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI KALLOO

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cefndir

Fel tîm twristiaeth Llywodraeth Cymru, Croeso Cymru sy'n gyfrifol am drefnu ymgyrchoedd twristiaeth yn y DU ac yn rhyngwladol i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan wyliau. Fel rhan o hyn, bob blwyddyn mae Croeso Cymru yn cynnal ymchwil ymhlith ei farchnadoedd blaenoriaeth. Mae'r ymchwil a geir yn yr adroddiad hwn yn ymdrin â Marchnad y Deyrnas Unedig ac yn edrych yn fras ar:

- Proffil y farchnad wyliau yn y DU
- Ffactorau sy'n dylanwadu ar deithiau byr a gwyliau yn y DU (cyfeirir atynt yn yr adroddiadau hyn fel 'sbardunwyr')
- Teithiau byr a gwyliau a gymerwyd yng Nghymru yn 2023
- Teithiau byr a gwyliau wedi'u cynllunio yng Nghymru yn 2024
- Effaith marchnata Croeso Cymru
- Effaith "Welcome to Wrexham"
- Rhesymau dros beidio ag ymweld â Chymru
- Cymhelliad a chanfyddiadau



# Methodoleg

Ar-lein Arolwg

Cyfweliad 17 munud o hyd

13 Mawrth - 5 Ebrill

DU

Cysylltwyd ag ymatebwyr trwy banel ar-lein. Gellid cwblhau'r arolwg drwy ddefnyddio bwrdd gwaith neu ddyfais symudol. Cwblhaodd 1151 o ymatebwyr yr arolwg. Roedd y 1002 o ymatebion cyntaf yn gynrychioliadol cenedlaethol o boblogaeth y DU sy’n cymryd gwyliau domestig. Yna cynhaliwyd hwb o 149 o arolygon ymhlith trigolion Cymru. Yna pwysolwyd y data i fod yn gynrychioliadol o’r boblogaeth ddomestig sy’n cymryd gwyliau, gan sicrhau cymaroldeb ag astudiaethau blaenorol, yn seiliedig ar oedran, rhyw, lledaeniad rhanbarthol a gradd gymdeithasol. I fod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, rhaid i gyfranogwyr berthyn i farchnad wyliau yn y DU, a ddiffinnir fel:

- Yn byw yn y Deyrnas Unedig.
- Oed 16+
- Yn gwneud y rhan fwyaf o benderfyniadau teithiau dros nos eu hunain neu gyda rhywun arall.
- Yn ystyried cymryd taith fer neu wyliau yn y DU yn ystod y 12 mis nesaf.

**Cyfradd Digwyddiadau**
42%



# Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

Yn yr adroddiad hwn mae nifer o dermau i ddiffinio ymatebwyr yr arolwg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Marchnad wyliau ddomestig y DU**: Cyfanswm poblogaeth yr arolwg. Preswylwyr y DU sydd o ddifrif yn ystyried taith fer neu wyliau yn y DU yn ystod y 12 mis nesaf.
- **Pobl a gymerodd daith i Gymru yn 2023**: Preswylwyr y DU a ddywedodd eu bod wedi cymryd taith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2023. Mae ymddygiad teithiau ar gyfer y gynulleidfa hon yn berthnasol i'r flwyddyn gyfan.
- **Y rhai na aeth ar daith i Gymru yn 2023**: Preswylwyr y DU a ddywedodd eu bod heb gymryd taith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2023.
- **Y rhai sy'n bwriadu cymryd taith i Gymru yn 2024**: Preswylwyr y DU sy'n bendant neu'n fwy na thebyg yn bwriadu cymryd taith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2024. Mae ymddygiad teithiau ar gyfer y gynulleidfa hon yn ymwneud â'u taith nesaf sydd wedi'i chynllunio yng Nghymru felly bydd tuedd naturiol iddi yn gynharach yn y flwyddyn. Gyda hyn mewn golwg, ni ddylid cymharu teithiau a gynllunnir ar gyfer 2024 â theithiau a gymerwyd yn 2023.

Mae cyfnodau bywyd yn well nag 'oedran' gan eu bod yn disgrifio sefyllfa bywyd rhywun yn well. At ddiben yr adroddiad hwn, defnyddir y canlynol:

- **Rhag-nythwyr**: 16-34 oed heb blant yn y cartref.
- **Teuluoedd**: 16-64 oed gyda phlant yn y cartref.
- **Pobl annibynnol hŷn**: 35-64 oed heb blant yn y cartref.
- **Oed ymddeol**: Oed 65+.





# CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

# Canfyddiadau Allweddol

**Arfordiroedd Golygfaol ac Ardaloedd o Harddwch Eithriadol sy'n dominyddu Dewisiadau Teithio'r DU**
Mae teithwyr o’r DU yn bennaf yn dewis cyrchfannau golygfaol, mannau traddodiadol ar lan y traeth ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol gyda Gogledd Cymru (yn arbennig Eryri) a Sir Benfro yn lleoliadau a ffafrir ar gyfer gwyliau.

**Gwerth am Arian yn Brif Ystyriaeth Ymysg Chwyddiant**
Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn brif ffactor wrth ddewis gwyliau domestig, gyda gradd gymdeithasol DE yn rhoi hyd yn oed mwy o bwyslais ar gost-effeithiolrwydd oherwydd pwysau economaidd.

**Diwylliant a Choginio yn Sbarduno Twristiaeth Ddomestig y DU**
Mae cael profiad o ddiwylliant a bwyd lleol yn hollbwysig wrth wneud penderfyniadau i deithwyr y DU, gan wella apêl cyrchfannau fel Cymru sy’n cynnig profiadau diwylliannol a choginio cyfoethog.

**Uchafbwyntiau Twristiaeth Cymru yn y Gwanwyn a'r Haf**
Mae’r rhan fwyaf o ymweliadau dros nos â Chymru yn 2023 yn digwydd yn ystod misoedd y gwanwyn a’r haf, sy’n cyd-fynd â hoffterau am ei harfordir hardd a’i chyrchfannau glan môr traddodiadol.

**Marchnata a Chyfryngau Cymdeithasol Effeithiol yn Hybu Ymwybyddiaeth o Dwristiaeth Cymru**
Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith pobl ar eu gwyliau yn y DU am gyrchfannau Cymru, wedi'i ysgogi gan farchnata llwyddiannus ac ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys dylanwad y gyfres ddogfen "Welcome to Wrexham".

**Pellter Teithio ac Amgylchiadau Personol yn Effeithio ar Benderfyniadau Teithio i Gymru**
Mae pellter a rhesymau personol yn rhwystrau sy'n atal cyfran sylweddol o ddarpar ymwelwyr rhag ystyried Cymru, gyda rhai yn dewis cyrchfannau agosach o fewn Ynysoedd Prydain neu Iwerddon.



# PROFFIL Y FARCHNAD WYLIAU YN Y DU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mae'r farchnad wyliau yn y DU wedi'i rhannu'n gyfartal rhwng gwrywod a benywod, gyda theuluoedd yn cyfri am y segmentau cyfnod bywyd mwyaf.

## Cyfnod bywyd

| | |
|---|---|
| Rhag-nythwyr | 13% |
| Teuluoedd | 37% |
| Pobl annibynnol hŷn | 27% |
| Oed ymddeol | 23% |

## Rhyw

49%

51%

## Oed

| | |
|---|---|
| 16-34 | 28% |
| 35-54 | 36% |
| 55-64 | 13% |
| 65+ | 23% |

## Dosbarth cymdeithasol

| | |
|---|---|
| AB | 33% |
| C1 | 27% |
| C2 | 17% |
| DE | 19% |

S1. Sut ydych chi'n disgrifio'ch rhyw? X2. Nodwch eich oedran.
X2b. A oes gennych unrhyw blant 15 oed neu iau yn eich cartref yr ydych yn gyfrifol amdanynt (rhiant, gwarcheidwad cyfreithiol ac ati)?
X3a. Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau X4a. Pa un o'r rhain sy'n disgrifio orau swydd y prif enillydd incwm yn eich cartref?
X4b. Rydych yn dweud bod y prif enillydd incwm ar yr aelwyd bellach wedi ymddeol. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau ei alwedigaeth cyn iddo ymddeol? Cyfanswm, n=1151.

SAMPL



# Mae'r sampl wedi'i hybu i or-gynrychioli Cymru, tra bod y sampl sy'n weddill yn gynrychioliadol o boblogaeth y DU.

## Rhanbarth tarddiad






S3. Ble yn y DU ydych chi’n byw? Cyfanswm, n=1151 (Cynrychiolaeth Genedlaethol, n=1002 a hwb Cymru, n=149).

# Mae'r Alban a Gorllewin Lloegr yn rhannau poblogaidd o'r DU ar gyfer teithiau byr neu wyliau. Mae Cymru hefyd yn un o'r ardaloedd mwyaf poblogaidd i ymweld â hi yn y DU, hyd yn oed pan fyddwn yn rheoli am hwb Cymru.

## Perthynas â phob cyrchfan




C1. Pa un o'r datganiadau canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi o ran ymweld â'r cyrchfannau hyn? Cyfanswm, Cynrychiolaeth Genedlaethol, n=1002 a hwb Cymru, n=149.

# O'r rhai a oedd wedi ymweld â Chymru, ymwelodd 43% ohonynt yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

## Ymweliadau blaenorol â phob cyrchfan




C2. Pryd ymweloch chi ddiweddaf â'r lleoedd hyn am daith fer neu wyliau? Pawb sydd wedi ymweld neu ddim yn siŵr, n=901 Cymru , n=795 Yr Alban, n=460 Gogledd Iwerddon , n=524 Gweriniaeth Iwerddon, n=732 Swydd Efrog, n=733 Ardal y Llynnoedd, n=847 De-orllewin Lloegr (gan gynnwys Dyfnaint a Chernyw), n=590 Peak District, n=776 Arfordir De Lloegr



# SBARDUNAU GWYLIAU - DU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI KALLOO

# Y prif ddewis cyrchfannau ymhlith marchnad wyliau ddomestig y DU yw ‘arforliniau a harbyrau golygfaol’, gyda ‘chyrchfannau glan môr traddodiadol’ yn dilyn yn agos.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Math o gyrchfannau




B1. Mae’r delweddau isod yn cynrychioli’r gwahanol fathau o gyrchfannau mae pobl yn ymweld â nhwl ba rai, os o gwbl, o’r rhain ydych chi o ddifrif yn ystyried cymryd taith fer neu wyliau yn y DU yn ystod y 12 mis nesaf? Cyfanswm, n=1151.



# Mae 'cefn gwlad a phentrefi golygfaol' yn llai poblogaidd ymhlith rhag-nythwyr o gymharu â chyfnodau bywyd eraill. Mae 'gwylltir a natur' ac 'antur mynydd' yn llai poblogaidd ymhlith y grŵp oed ymddeol.

## Math o gyrchfan, yn ôl cyfnod bywyd




B1. B1. Mae'r delweddau isod yn cynrychioli'r gwahanol fathau o gyrchfannau mae pobl yn ymweld â nhwl ba rai, os o gwbl, o'r rhain ydych chi o ddifrif yn ystyried cymryd taith fer neu wyliau yn y DU yn ystod y 12 mis nesaf? Cyfanswm, n=1151. (Rhag-nythwyr n=150, Teuluoedd n=426, Pobl annibynnol hŷn n=311, Oed ymddeol n=265).

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwerth am arian yw'r ffactor mwyaf dylanwadol wrth ddewis gwyliau domestig, ac yna cyfleustra.
# Mae ‘gwerth gwych am arian’ yn bwysig ar gyfer pob gradd gymdeithasol, ond yn fwy felly ar gyfer graddau cymdeithasol DE (71% o gymharu â 51% ar gyfer AB).

## Dylanwadau cyrchfan

**Gwerth gwych am arian** **60%**

| | |
|---|---|
| AB | 51% |
| C1 | 65% |
| C2 | 60% |
| DE | 71% |

| | |
|---|---|
| Mae'n hawdd teithio iddo a mynd o gwmpas | 52% |
| Golygfeydd a thirweddau anhygoel | 49% |
| Llety o ansawdd uchel | 39% |
| Cyrchfan sy'n gyfoethog o ran hanes a threftadaeth | 38% |
| Tirnodau enwog ac atyniadau ymwelwyr | 37% |
| Pobl sy'n hynod groesawgar | 35% |
| Rhywle y gallwch ymweld ag ef bob adeg o'r flwyddyn | 35% |
| Llawer o weithgareddau a phethau i'w gwneud | 35% |
| Lleoedd gwych ac anarferol i’w harchwilio | 31% |
| Lleoedd sy'n enwog am eu bwyd a'u diod | 29% |
| Cyfleoedd i archwilio fy hobïau a diddordebau | 23% |
| Profiad diwylliannol dilys | 22% |
| Sîn ddiwylliant ac adloniant ffyniannus | 21% |
| Cyrchfan ecogyfeillgar | 20% |

B2. Isod mae rhestr o ddylanwadau mae pobl wedi rhoi ar gyfer dewis cyrchfannau eu teithiau byr a gwyliau. Pa rai, os o gwbl, sydd fwyaf dylanwadol wrth feddwl am ddewis teithiau byr neu wyliau yn y DU? Cyfanswm, n=1151.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mae diwylliant a bwyd yn sefyll allan fel ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar wneud penderfyniadau mewn twristiaeth ddomestig, ymysg amrywiaeth eang o brofiadau. Y prif weithgareddau yw ‘ymweld ag atyniadau awyr agored i ymwelwyr’ a ‘rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol’.

## Profiadau gorau, 10% neu uwch




B3. A pha rai, os o gwbl, o’r mathau hyn o brofiadau fyddech chi fwyaf yn hoffi eu gwneud ar wyliau neu daith fer yn y DU yn y 12 mis nesaf? Cyfanswm, n=1151.



# Mae Pobl Annibynnol Hŷn a rhai o oedran ymddeol yn fwy tebygol o ffafrio profiadau sy'n ymwneud ag atyniadau awyr agored a diwylliannol/lleol. Mae teuluoedd yn fwy tebygol o ymweld ag 'atyniadau teuluol'.

## Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf (11 uchaf) – yn ôl cyfnod bywyd




B3. A pha rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o brofiadau fyddech chi fwyaf yn hoffi eu gwneud ar wyliau neu daith fer yn y DU yn y 12 mis nesaf? Cyfanswm, n=1151 (Rhag-nythwyr n=150, Teuluoedd n=426, Pobl annibynnol hŷn n=311, Oed ymddeol n=265).

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Golygfeydd hardd yw'r brif ystyriaeth wrth archebu taith fer neu wyliau.

## Y prif ystyriaethau pwysicaf




J3. Gan feddwl am eich cyrchfan gwyliau domestig a/neu daith fer arferol, dewiswch y 5 ystyriaeth bwysicaf? Pawb sydd â rhywfaint o gyfrifoldeb wrth fwcio gwyliau, n=1115.



# Sbardunau Gwyliau y DU

**Mae'n well gan ymwelwyr y DU gyrchfannau arfordirol**
Cyrchfannau golygfaol a mannau traddodiadol ar lan y traeth sydd ar frig y rhestr i deithwyr y DU.

**Gwerth am arian sy'n arwain dewisiadau gwyliau**
Fforddiadwyedd yw'r prif ffactor wrth ddewis gwyliau domestig, gyda mwy o bwysigrwydd ymhlith gradd gymdeithasol DE. Gall hyn gael ei waethygu gan bwysau chwyddiant cyfredol.

**Mae golygfeydd hardd, profiadau diwylliannol a choginio yn allweddol i dwristiaeth y DU**
Mae ymweld â gweithgareddau awyr agored, profi diwylliant lleol a bwyd yn dod i'r amlwg fel ffactorau penderfynu allweddol ar gyfer teithwyr domestig.

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL



# YMWELIADAU Â CHYMRU YN 2023

# Ar y cyfan, aeth 38% ar daith i Gymru yn 2023. Yn eu plith, rhag-nythwyr a theuluoedd oedd fwyaf tebygol o fod wedi cymryd taith fer neu wyliau.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## A gymerwyd taith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2023 ('Do')




## Faint o deithiau byr neu wyliau (ar gyfartaledd yn 2023)

**1.70** taith fer (1-3 noson)
**1.54** gwyliau (4+ noson)

D1. A aethoch chi ar daith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2023? Cyfanswm, n=1151.
D2. Sawl taith fer neu wyliau gymeroch chi yng Nghymru yn 2023? Pobl a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=438.



# Mae ymweliadau dros nos ymhlith twristiaid domestig â Chymru yn parhau ar eu huchaf yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf.

## Misoedd y cymerwyd taith i Gymru yn 2022 o'i gymharu â 2023




D3. Ac ym mha fisoedd o'r flwyddyn ymweloch chi â Chymru am daith fer neu wyliau yn 2023? Dewiswch bob mis yr arhosoch chi dros nos yng Nghymru fesul taith (gall hyn fod yn fwy na mis fesul taith). Pobl a gymerodd daith i Gymru, n=516 (Wedi mynd ar daith yn 2022), n=438 (Wedi mynd ar daith yn 2023).



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymhlith ymwelwyr 2023, dywedodd dwy ran o dair mai Cymru oedd eu dewis cyntaf, cynnydd bach o gymharu ag ymwelwyr 2022.

## Cymru fel cyrchfan dewis cyntaf




D4. Pa rai, os o gwbl, o'r datganiadau hyn sydd fwyaf perthnasol i'ch taith yng Nghymru ym mis? Pobl a gymerodd daith i Gymru, n=516 (Wedi mynd ar daith yn 2022 ), n=438 (Wedi mynd ar daith yn 2023).



# Gogledd a De-orllewin Cymru (yn enwedig Eryri a Sir Benfro) oedd y gyrchfan fwyaf poblogaidd i ymwelwyr o'r DU a ymwelodd â Chymru yn 2023. Roedd y mwyafrif yn ffafrio arosiadau byr, gydag ychydig iawn yn aros mwy nag wythnos.

## Ble yng Nghymru arhosoch chi?




2% Methu cofio

## Nifer y nosweithiau a arhoswyd yng Nghymru yn 2023




D6. Ble yng Nghymru arhosoch chi dros nos ar y daith hon ym mis?
D8. Ar y daith hon i Gymru / o fewn Cymru ym mis, am sawl noson arhosoch chi i ffwrdd? Pobl a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=438.

# Teithiodd y mwyafrif llethol o ymwelwyr y DU â Chymru yn 2023 gydag o leiaf un person arall. Teithiodd 67% gyda'u partner a dim ond lleiafrif bach a gymerodd y daith ar eu pen eu hunain.

## Aelodau partïon ymwelwyr i Gymru yn 2023






D9. Gyda phwy wnaethoch chi dreulio eich daith fer neu wyliau yng Nghymru ym mis 2023? Pobl a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=438.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mae’r math o gyrchfannau yr ymwelwyd â nhw yng Nghymru yn 2023 yn cyd-fynd â’r dewis o gyrchfannau ymhlith marchnad wyliau ddomestig y DU, gyda ‘chyrchfannau glan môr traddodiadol’ ac ‘arforliniau a harbyrau golygfaol’ y cyrchfannau mwyaf poblogaidd ar gyfer teithiau i Gymru yn 2023.

## Math o gyrchfannau




D5. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fath/au o gyrchfannau yr arhosoch ynddynt yn ystod y daith hon yng Nghymru ym mis 2023? Pobl a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=438.



## Yn gyffredinol, cafodd y mathau o gyrchfannau a ffefrir yn fawr gyfrannau uwch o ymweliadau yn 2023. Mae dinasoedd a threfi mawr yn gyrchfannau a ffefrir, ond nid ydynt yn gweld nifer gyfatebol uchel o ymweliadau – mae hyn yn awgrymu bod lle i gynyddu nifer yr ymweliadau â'r cyrchfannau hyn i fodloni'r galw.




B1. Mae'r delweddau isod yn cynrychioli'r gwahanol fathau o gyrchfannau mae pobl yn ymweld â nhwl ba rai, os o gwbl, o'r rhain ydych chi o ddifrif yn ystyried cymryd taith fer neu wyliau yn y DU yn ystod y 12 mis nesaf? Cyfanswm, n=1151.
D5. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fath/au o gyrchfannau yr arhosoch ynddynt yn ystod y daith hon yng Nghymru ym mis 2023? Pobl a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=438.

# Deall nodweddion teithiau a gymerwyd yn 2023

**Gogledd Cymru sydd ar frig y dewis o gyrchfannau**

Ymwelodd dros draean o drigolion y DU â Chymru, gydag Eryri a Sir Benfro ar y brif fel cyrchfannau dewisol, yn enwedig ar gyfer arhosiadau byr.

**Mae'r gwanwyn a'r haf yn hollbwysig i dwristiaeth Cymru**

Mae'r rhan fwyaf o ymweliadau dros nos yn digwydd yn y tymhorau hyn, sy'n cyd-fynd â'r hyn a ffafrir ar gyfer arfordiroedd hardd Cymru a'r cyrchfannau glan môr traddodiadol.

**Teithio cymdeithasol yn allweddol ar gyfer ymwelwyr i Gymru**

Dewisodd dwy ran o dair o ymwelwyr yn 2023 Gymru fel eu prif gyrchfan, yn aml yn teithio gyda phartneriaid neu deulu.

# YN DEBYGOL O YMWELD Â CHYMRU YN 2024

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI KALLOO

# Dywedodd tua hanner y rhai sy'n cymryd gwyliau domestig yn y DU eu bod yn bwriadu ymweld â Chymru yn 2024, sy'n debyg i'r llynedd.

## Yn bwriadu ymweld â Chymru yn 2024




**1.69** taith fer wedi'i bwriadu yn 2024 ar gyfartaledd

**1.44** gwyliau wedi'u bwriadu y flwyddyn yn 2024 ar gyfartaledd

F1. A ydych chi'n bwriadu mynd ar daith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2024? Cyfanswm, n=1136 (2023), n=1151 (2024).
F2. Yn fras, faint o deithiau byr neu wyliau ydych chi'n bwriadu eu cymryd yng Nghymru yn 2024? Y rhai sy'n bwriadu mynd ar daith i Gymru yn 2024, n=568.



# Mae rhag-nythwyr a theuluoedd yn fwy tebygol na chyfnodau bywyd eraill o ymweld. Mae pobl annibynnol hŷn ac oed ymddeol yn fwy tebygol o fod yn ansicr/heb benderfynu.

## Yn bwriadu ymweld â Chymru yn 2024, yn ôl cyfnod bywyd




F1. A ydych chi’n bwriadu mynd ar daith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2024? Cyfanswm, n=1151 (Rhag-nythwyr n=150, Teuluoedd n=426, Pobl annibynnol hŷn n=311, Oed ymddeol n=265).

# Mae lledaeniad nodedig o fathau posibl o gyrchfannau ymhlith y rhai sy'n bwriadu ymweld yn 2024, a'r mwyaf poblogaidd ohonynt yw'r arfordir a'r harbyrau, gan adlewyrchu patrymau ymweliadau 2023.

## Math o gyrchfan y rhai sy'n bwriadu mynd ar daith yng Nghymru yn 2024




F8. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fathau o gyrchfan rydych chi'n debygol o aros ynddynt yn ystod eich gwyliau byr neu wyliau nesaf yng Nghymru ym mis 2024? Y rhai sy'n bwriadu mynd ar daith i Gymru yn 2024, n=568.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymhlith y rhai sy’n bwriadu mynd ar daith yng Nghymru yn 2024, mae bwyd, treftadaeth, gweithgareddau awyr agored a heicio ar frig teithlenni’r rhai sy’n bwriadu teithio.

## Prif weithgareddau (>10%) y rhai sy’n bwriadu mynd ar daith yng Nghymru yn 2024

**Rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol 32%**

| | |
|---|---|
| Ymweld ag atyniadau awyr agored i ymwelwyr | 31% |
| Ymweld â safleoedd treftadaeth neu gestyll | 30% |
| Cerdded, heicio neu grwydro | 29% |
| Archwilio ardaloedd golygfaol mewn car | 25% |
| Ymweld ag atyniadau diwylliannol | 21% |
| Profiadau natur a bywyd gwyllt | 21% |
| Ymweld â ffrindiau neu deulu | 16% |
| Ymweld ag atyniadau teuluol | 15% |
| Gweithgareddau antur | 14% |
| Nofio yn y môr / mewn dŵr agored | 14% |
| Siopa arbenigol | 13% |
| Profi’r bywyd nos | 13% |
| Profiadau iechyd neu les | 12% |
| Gweithgareddau creadigol neu artistig | 11% |
| Ymweld â lleoliadau sy'n cael sylw mewn teledu, ffilm neu lenyddiaeth | 10% |
| Mynychu cerddoriaeth fyw, gŵyl neu berfformiadau celfyddydol | 10% |

F9. Pa rai, os o gwbl, o’r gweithgareddau hyn ydych chi’n debygol o’u gwneud ar eich taith fer neu wyliau nesaf yng Nghymru ym mis 2024? Y rhai sy’n bwriadu mynd ar daith i Gymru yn 2024, n=568.



# Yn unol â'r prif weithgaredd o 'roi cynnig ar fwyd a diod lleol', mae diddordeb cryf mewn mynychu 'gŵyl fwyd a diod'. Fodd bynnag, mae amrywiaeth nodedig o ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd o ddiddordeb i'r rhai sy'n bwriadu cymryd taith yn 2024.

## Diddordeb mewn gwyliau/digwyddiadau'r rhai sy'n bwriadu mynd ar daith yng Nghymru yn 2024




F10. Faint o ddiddordeb, os o gwbl, fyddai gennych chi mewn mynychu'r mathau isod o wyliau neu ddigwyddiadau yng Nghymru yn 2024, n=568. Canran y rhai sydd 'â llawer o ddiddordeb' a 'Byddaf yn bendant yn mynychu/yn ystyried mynychu'.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mae’r rhan fwyaf yn bwriadu cymryd eu taith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2024 yn ystod misoedd yr haf (Mehefin-Medi).

## Mis(oedd) arfaethedig ymweld â Chymru yn 2024




F3. Pryd ydych chi’n bwriadu mynd ar daith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2024?
Y rhai sy’n bwriadu mynd ar daith i Gymru yn 2024, n=568.



# Gogledd Cymru yw’r gyrchfan fwyaf poblogaidd ar gyfer bwriadwyr 2024, gydag Eryri a Sir Benfro yn brif gyrchfannau yng Nghymru.

## Ble yng Nghymru ydych chi'n bwriadu aros?




5% Methu cofio




F7. Ym mha un o'r ardaloedd hyn ydych chi'n bwriadu aros dros nos ar eich taith fer neu wyliau nesaf yng Nghymru ym mis 2024?
Y rhai sy’n bwriadu mynd ar daith i Gymru yn 2024, n=568.

# Mynegodd 34% eu bwriad i fynd ar daith ganol wythnos, a dilynwyd hyn yn agos gan 33% a oedd yn bwriadu mynd ar daith penwythnos hir.

## Cyfnod yr wythnos y rhai sy'n bwriadu mynd ar daith yng Nghymru yn 2024




F5. Pa adeg/au o'r wythnos fyddech chi fwyaf tebygol o gymryd eich taith fer neu wyliau nesaf yng Nghymru ym mis 2024? Y rhai sy'n bwriadu mynd ar daith i Gymru yn 2024, n=568.



# Mae poblogrwydd ymweliadau canol wythnos yn cael ei yrru'n bennaf gan ymatebwyr oedran ymddeol gyda mwy na hanner yn bwriadu ymweld y tu allan i slotiau penwythnos prysurach.

## Cyfnod yr wythnos y rhai sy’n bwriadu mynd ar daith yng Nghymru yn 2024, yn ôl cyfnod bywyd




F5. Pa adeg/au o'r wythnos fyddech chi fwyaf tebygol o gymryd eich taith fer neu wyliau nesaf yng Nghymru ym mis 2024? Y rhai sy’n bwriadu mynd ar daith i Gymru yn 2024, n=568 (Rhag-nythwyr n=88, Teuluoedd n=273, Pobl annibynnol hŷn n=113, Oed ymddeol n=93).

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Yn debyg i'r rhai a gymerodd daith yng Nghymru yn 2023, byddai'r rhai sy'n bwriadu cymryd taith i Gymru yn 2024 yn fwyaf tebygol o dreulio eu gwyliau byr nesaf yng Nghymru gyda'u partner.

## Aelodau partïon ymwelwyr i Gymru yn 2024






F6. Pwy, os unrhyw un, sy'n debygol o ddod gyda chi ar eich taith fer neu wyliau nesaf yng Nghymru ym mis 2024? Y rhai sy'n bwriadu mynd ar daith i Gymru yn 2024, n=568.

# Mae pobl sy’n mynd ar deithiau i Gymru yn debygol o ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau i gynllunio eu taith yn 2024. ‘Sgyrsiau gyda ffrindiau/teulu sydd wedi ymweld’ a ‘peiriant chwilio’ sy’n cael eu defnyddio amlaf. Defnyddiodd 22% dudalen cyfryngau cymdeithasol Croeso Cymru.

## Ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd/sy’n debygol o’u defnyddio i gynllunio taith i Gymru yn 2024




F11. Pa rai o’r ffynonellau gwybodaeth hyn, os o gwbl, ydych chi’n debygol o’u defnyddio neu a ydych chi eisoes wedi’u defnyddio i gynllunio’ch trip(iau) yng Nghymru yn 2024? Y rhai sy’n bwriadu mynd ar daith i Gymru yn 2024, n=568.



# Mae chwarter y rhai sy'n bwriadu cymryd taith yn 2024 hefyd yn ystyried taith dros nos yn Ardal y Llynnoedd. Mae Llundain, yr Alban a Gorllewin Lloegr hefyd ymhlith y cyrchfannau domestig sydd fwyaf tebygol o gael eu hystyried.

## Lleoliadau yn y DU ac Iwerddon a ystyrir ar gyfer ymweld yn 2024




F12. Ble arall, os unrhyw le, yn y DU ac Iwerddon yr ydych chi o ddifrif yn ystyried ymweld ag ef am daith fer neu wyliau yn ystod y 12 mis nesaf? Y rhai sy'n bwriadu mynd ar daith i Gymru yn 2024, n=568.



# Deall bwriadau i fynd ar deithiau i Gymru yn 2024

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

**Mae diddordeb mawr yn parhau i dwristiaeth Cymru yn 2024**

Mae tua hanner ymwelwyr y DU yn bwriadu ymweld â Chymru, gyda diddordeb parhaus mewn cyrchfannau arfordirol a harbwr.

**Bwyd, treftadaeth a heicio yw prif weithgareddau 2024**

Mae darpar deithwyr yn awyddus i gymryd rhan mewn bwyd lleol, treftadaeth ddiwylliannol, ac atyniadau a gweithgareddau awyr agored, gyda thuedd gref tuag at wyliau bwyd a diod.

**Mae amserlennu hyblyg yn denu oed ymddeol i wyliau canol wythnos yng Nghymru**

Mae nifer sylweddol o'r rhai o oed ymddeol yn ffafrio ymweliadau canol wythnos.

# EFFAITH MARCHNATA CROESO CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mae cyfran uwch o'r farchnad wyliau yn y DU wedi clywed sôn am Gymru fel lle i ymweld ag ‘ychydig’ neu ‘lawer mwy’ yn 2024, o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

## Wedi clywed sôn am Gymru fel lle i ymweld ag ef




H1. O'i gymharu â'r arfer, faint ydych chi wedi clywed am Gymru fel lle i ymweld ag ef dros y 3 mis diwethaf?
Cyfanswm, n=1151 (2024).



# Mae 60% wedi gweld neu glywed am Gymru drwy o leiaf un ffynhonnell gwybodaeth yn ystod y misoedd diwethaf. Ar lafar yw'r brif ffynhonnell, gyda hysbysebion teledu yn dilyn yn agos. Fodd bynnag, mae rhag-nythwyr yn llai tebygol o fod wedi clywed amdano trwy hysbysebion teledu ac yn fwy tebygol trwy grëwr cynnwys neu ddylanwadwr a chyfryngau cymdeithasol.

## Wedi gweld neu glywed am wyliau yng Nghymru




H2. Pa rai, os o gwbl, o’r canlynol ydych chi wedi’u gweld neu eu clywed am wyliau yng Nghymru yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf? Cyfanswm, n=1151.



# Roedd gan y ddwy hysbyseb lefel debyg o alw'n ôl, gyda 34% wedi dweud y gallent gofio gweld pob un yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf.

**Dywedodd 34% eu bod wedi gweld yr HYSBYSEB TELEDU**




**Dywedodd 34% eu bod wedi gweld y Vignette Digidol**




H4. Ydych chi'n cofio gweld y ffilm hon neu rywbeth tebyg iawn yn ystod y misoedd diwethaf? Cyfanswm, n=1151.

# Roedd y canfyddiadau o'r hysbysebion yn gadarnhaol, gyda mwyafrif nodedig yn cytuno eu bod yn paentio Cymru mewn goleuni cadarnhaol a'u bod yn gwneud i Gymru edrych yn apelgar iawn am daith.

## Canfyddiadau cyffredinol o'r ffilmiau




H5. Ac wrth feddwl am y ffilmiau rydyn ni newydd eu dangos i chi fel un ymgyrch farchnata gyfan, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Cyfanswm, n=1151.

# Mae tua dwy ran o dair yn cytuno bod yr ymgyrch yn gwneud iddyn nhw fod eisiau ymweld ag ardaloedd o Gymru nad ydyn nhw wedi bod iddyn nhw o'r blaen ac roedd cyfran debyg yn cytuno ei fod yn gwneud iddyn nhw fod â llawer mwy o ddiddordeb mewn mynd ar daith i Gymru yn gyffredinol.

## Canfyddiadau cyffredinol o'r ffilmiau




H7. A chan feddwl am yr effaith mae'r ymgyrch wedi'i chael arnoch chi'n bersonol, sut mae'r ffilmiau a'r hysbysebion hyn yn effeithio ar eich canfyddiadau o Gymru fel cyrchfan taith fer neu wyliau? Cyfanswm, n=1151.

# Sgoriodd yr hysbysebion yn uchel am gyfathrebu golygfeydd a thirweddau anhygoel yng Nghymru ac am gael llawer o weithgareddau a phethau i'w gwneud.

## Datganiadau disgrifiadol sy'n deillio o hysbysebion




H6. Pa rai, os o gwbl, o'r datganiadau disgrifiadol hyn am Gymru fyddech chi'n dweud sy'n dod ar draws yn glir o'r hysbysebion rydych chi wedi'u gweld? Cyfanswm, n=1151.



# Dywedodd 36% eu bod wedi ymgysylltu ag un o sianeli marchnata digidol Croeso Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf, gyda'r wefan a Facebook yn brif bwyntiau cyswllt.






H8. Yn fwy cyffredinol, pa rai o'r canlynol sy'n berthnasol i chi a Croeso Cymru yn y 12 mis diwethaf?
Cyfanswm, n=1151.

# Ymhlith y rhai sy’n annhebygol o ymweld â Chymru neu nad oedd wedi penderfynu ynghylch ymweld â Chymru yn 2023, roedd 10% yn cydnabod eu bod yn agored i farchnata neu hysbysebu yn ymwneud â thwristiaeth Cymru. Ymhlith y grŵp hwn, roedd y mwyafrif yn cytuno bod yr hysbysebion yn gwneud i Gymru ymddangos yn fwy cyffrous ac yn cynyddu eu tebygolrwydd o ymweld yn y dyfodol.

**% o’r rhai sy’n annhebygol neu heb benderfynu ynglŷn ag ymweld â Chymru yn 2023, a ydych chi wedi gweld unrhyw farchnata neu hysbysebu mewn perthynas â thwristiaeth Cymru?**







F12a/b. A ydych chi wedi gweld unrhyw farchnata neu hysbysebu mewn perthynas â thwristiaeth Cymru? I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiadau canlynol am yr hysbysebu a welsoch mewn perthynas â thwristiaeth Cymru…Annhebygol neu heb benderfynu am ymweld â Chymru yn 2023, n=583 (ac wedi gweld hysbysebu ar gyfer twristiaeth Cymru, n=60).

# Effaith marchnata Croeso Cymru

**Mae ymwybyddiaeth well o Gymru fel cyrchfan yn arwydd o farchnata effeithiol**

Mae niferoedd cynyddol o ymwelwyr yn y DU yn dod yn fwy cyfarwydd â mannau twristiaeth Cymru oherwydd strategaethau marchnata effeithiol, gyda chynnydd nodedig mewn ymwybyddiaeth o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

**Dylanwad cymdeithasol a chyfryngau sy'n sbarduno diddordeb yng Nghymru**

Mae 60% o ddarpar ymwelwyr wedi dod ar draws gwybodaeth am Gymru trwy amrywiol ffynonellau, gydag ar lafar a theledu yn arwain, gyda rhai gwahaniaethau allweddol mewn demograffeg.

**Mae derbyniadau hysbysebu cadarnhaol yn hybu diddordeb mewn ymweliadau â Chymru**

Mae hysbysebion sy'n hyrwyddo Cymru yn atseinio'n dda, yn gwneud i'r wlad edrych yn apelgar ac yn annog gwylwyr i archwilio ardaloedd nas ymwelwyd â nhw o'r blaen.

# EFFAITH "WELCOME TO WREXHAM"



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI KALLOO

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dywedodd 42% eu bod yn ymwybodol o'r gyfres ddogfen "Welcome to Wrexham".

## Wedi clywed am neu wylio'r gyfres ddogfen "Welcome to Wrexham" ar y teledu






G1. Cyn llenwi'r holiadur hwn, a oeddech chi wedi clywed am neu wylio'r rhaglen ddogfen deledu "Welcome to Wrexham? Cyfanswm, n=1151.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# O'r rhai sy'n ymwybodol o "Welcome to Wrexham", dywedodd traean eu bod wedi siarad am Wrecsam neu Gymru gyda phobl eraill. Cytunodd mwyafrif nodedig ei fod yn eu gwneud yn fwy cadarnhaol am Gymru.

## Effaith "Welcome to Wrexham"




## "Welcome to Wrexham" yn dylanwadu ar ganfyddiad o Gymru




G2. Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi wedi'u gwneud o ganlyniad i glywed am neu wylio'r rhaglen ddogfen deledu "Welcome to Wrexham"?
G3. Sut, os o gwbl, mae rhaglen ddogfen "Welcome to Wrexham" wedi effeithio ar eich canfyddiadau o Gymru? Pawb sy'n ymwybodol o "Welcome to Wrexham", n=482.

# Roedd y mwyafrif o’r rhai sy’n ymwybodol o “Welcome to Wrexham” â mwy o ddiddordeb mewn ymweld â Wrecsam a Chymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## “Welcome to Wrexham” wedi cynyddu diddordeb mewn ymweld â Wrecsam/Chymru?






G4/5. A yw'r rhaglen ddogfen “Welcome to Wrexham” wedi cynyddu eich diddordeb mewn ymweld â Wrecsam?
Pawb sy’n ymwybodol o “Welcome to Wrexham”, n=482.

# Effaith "Welcome to Wrexham"



**Cyfres Ddogfen "Welcome to Wrexham" yn rhoi hwb i weledEdd Cymru**

Mae nifer nodedig o bobl ar eu gwyliau yn y DU yn ymwybodol o'r gyfres ddogfen, yn sbarduno sgyrsiau ac yn gwella amlygrwydd Wrecsam a Chymru.

**Canfyddiadau cadarnhaol o Gymru yn codi yn dilyn cyfres ddogfen**

Adroddodd cyfran nodedig o wylwyr agwedd fwy cadarnhaol at Gymru ar ôl gwylio "Welcome to Wrexham," gan amlygu effaith y cyfryngau ar ganfyddiadau twristiaeth.

**Cyfres ddogfen yn sbarduno diddordeb twristiaid yn Wrecsam a Chymru**

Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n gyfarwydd â'r gyfres ddogfen yn mynegi diddordeb cynyddol mewn ymweld â Wrecsam a Chymru, gan ddangos effeithiolrwydd y gyfres o ran hybu diddordeb twristiaeth.



# RHESYMAU DROS BEIDIO AG YMWELD Â CHYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI KALLOO

# O'r rhai nad oedd wedi bod ar daith i Gymru, nid oedd dwy ran o dair wedi ystyried taith dros nos i Gymru yn 2023 Penderfynodd ychydig dros hanner fynd i rywle arall yn Ynysoedd Prydain neu Iwerddon, a Gorllewin Lloegr oedd y gyrchfan fwyaf poblogaidd.

**Roedd 23%** o'r rhai nad oedd wedi bod ar daith i Gymru yn ystyried taith dros nos i Gymru yn 2023




## Ble yn Ynysoedd Prydain neu Iwerddon?




E1. Sonioch chi na wnaethoch gymryd taith fer neu wyliau yng Nghymru yn ystod 2023. A oeddech yn ystyried taith yng Nghymru yn 2023 ar unrhyw adeg?
E2. Ac a aethoch chi rywle arall am daith fer neu wyliau yn 2023, neu aethoch chi ddim ar wyliau o gwbl? Y rhai na aethant ar daith i Gymru yn 2023, n=713.
E3. Ac i ba un o'r ardaloedd canlynol o Ynysoedd Prydain ac Iwerddon aethoch chi ar eich taith fer neu wyliau yn 2023? Wedi mynd i Ynysoedd Prydain neu Iwerddon, n=390.

KUBI KALLOO
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pellter ac amgylchiadau personol oedd y ddau brif reswm dros beidio ag ymweld â Chymru yn 2023.

## Rhesymau dros beidio ag ymweld â Chymru yn 2023




E4. Beth yw'r rhesymau pam na wnaethoch chi gymryd daith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2023?
Y rhai na aethant ar daith i Gymru yn 2023, n=713.



Y RHAI NAD YDYNT YN BWRIADU CYMRYD TAITH I GYMRU YN 2024

# Yn 2024, y prif reswm dros beidio â chynllunio i ymweld â Chymru hefyd yw ei bod yn rhy bell i deithio, gan adlewyrchu'r prif resymeg o 2023. Dilynwyd hyn yn agos gan bobl yn penderfynu torri'n ôl ar dwristiaeth ddomestig yn gyffredinol.

## Rhesymau dros beidio bwriadu ymweld â Chymru yn 2024




F13. Beth yw'r rhesymau pam nad ydych yn bwriadu ymweld â Chymru am daith fer neu wyliau yn 2024?
Non-Y rhai sy'n bwriadu mynd ar daith i Gymru yn 2024, n=391.



Y RHAI NAD YDYNT YN BWRIADU CYMRYD TAITH I GYMRU YN 2024

# Ymhlith y rhai nad ydynt yn bwriadu ymweld â Chymru yn 2024, Gorllewin Lloegr (24%) yw cyrchfan mwyaf poblogaidd y DU ac Iwerddon.

## Lleoliadau yn y DU ac Iwerddon a ystyrir ar gyfer ymweld yn 2024




F14. Ble, os unrhyw le, yn y DU ac Iwerddon yr ydych chi o ddifrif yn ystyried ymweld ag ef am daith fer neu wyliau yn ystod 2024? Non-Y rhai sy'n bwriadu mynd ar daith i Gymru yn 2024, n=391.



# Rhesymau dros beidio ag ymweld â Chymru yn 2023 neu fwriadu ymweld yn 2024

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

**Pellter a rhesymau personol yn atal ymweliadau â Chymru yn 2023**

Nid oedd dwy ran o dair o ddarpar ymwelwyr yn ystyried Cymru ar gyfer teithiau dros nos, yn bennaf oherwydd pellter teithio ac amgylchiadau personol.

**Agosrwydd teithio yn dylanwadu ar ddewisiadau gwyliau'r DU**

Dewisodd mwy na hanner y teithwyr nad ydynt yn dod o Gymru gyrchfannau eraill o fewn Ynysoedd Prydain neu Iwerddon, gyda Gorllewin Lloegr yn dod i'r amlwg fel y dewis arall mwyaf poblogaidd.

**Mae pellter teithio yn parhau i fod yn rhwystr ar gyfer teithiau Cymru 2024**

Gan barhau o 2023, y prif rwystr ar gyfer darpar ymwelwyr yn 2024 yw'r pellter teithio sylweddol i Gymru, wedi'i waethygu gan leihad cyffredinol mewn cynlluniau twristiaeth ddomestig.



# CYMHELLIAD A CHANFYDDIADAU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI KALLOO

# Mae mwy na hanner yn cysylltu Cymru â bod yn ddilys, yn groesawgar ac yn gyfeillgar.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cysylltiadau â Chymru




I2. Dewiswch yr holl gyrchfannau gwyliau rydych chi'n eu cysylltu â'r geiriau canlynol.
Cyfanswm, n=1151.



KUBI KALLOO

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mae amrediad eang o gysylltiadau â Chymru. Mae 58% yn cytuno bod Cymru'n lle sy'n gyfoethog o ran hanes a threftadaeth, gyda digon o fannau diddorol i'w harchwilio y tu hwnt i'r brifddinas.

## Datganiadau mewn cysylltiad â Chymru




I3. Isod, fe welwch gyfres o ddatganiadau a chyrchfannau y gallech eu hystyried ar gyfer cymryd gwyliau hamdden neu daith fer. Nodwch pa gyrchfannau yr ydych yn eu cysylltu â'r datganiadau canlynol. Gallwch ddewis cymaint neu gyn lleied ag y dymunwch ar gyfer pob datganiad neu ddewis 'dim un o'r rhain' os nad ydych yn meddwl ei fod yn berthnasol i unrhyw gyrchfan. Cyfanswm, n=1151.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymhelliad a Chanfyddiadau

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

**Cyrchfan groesawgar**

Mae gan ymwelwyr y DU farn gadarnhaol ar Gymru ar y cyfan, gan ei chysylltu’n aml â dilysrwydd, cyfeillgarwch ac awyrgylch croesawgar. Mae'r canfyddiadau hyn yn darlunio Cymru fel cyrchfan wirioneddol a chroesawgar.

**Treftadaeth ddiwylliannol**

Mae marchnad wyliau ddomestig y DU fel arfer yn cysylltu Cymru â hanes cyfoethog a digonedd o gyfleoedd i archwilio. Ystyrir Cymru fel ardal o arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol, sy'n apelio'n arbennig at y rhai sydd â diddordeb mewn treftadaeth.